
# Papur
# Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



O na bawn yn fwy tebyg
i Iesu Grist yn byw,
yn llwyr gysegru 'mywyd
i wasanaethu Duw:

**Eleazar Roberts – Caneuon Ffydd 721**

***Gweler yr erthygl y tu mewn***

**Rhifyn 5**
**PAPUR IONAWR 2025**

# Gair gan ein Gweinidog

**Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd**

Denodd pennod olaf Gavin & Stacey a ddarlledwyd nos y Nadolig filiynau o wylwyr. Bu cyffro mawr i weld sut y byddai'r gyfres boblogaidd yn tynnu i'w therfyn ac ni siomwyd y gwylwyr ffyddlon gyda record o 12.3 miliwn yn ei gwylio. Denodd araith gyntaf Siarl fel Brenin 5.04 miliwn o wylwyr, y trydydd nifer mwyaf yn dilyn Wallace & Gromitt a ddaeth yn yr ail safle gyda 9.8 miliwn o wylwyr!



Tybed beth oedd ystadegau addolwyr dros yr Ŵyl? Mae'n haws o lawer cyfri gwylwyr neu wrandawyr rhaglenni teledu neu radio, neu sawl person sydd wedi lawrlwytho cerddoriaeth o'r we, nag i wybod yn iawn faint o addolwyr sy'n troi i mewn, yn gorfforol neu'n ddigidol i addoli.



Mae Eglwys Loegr yn adrodd bod yn agos i 2 filiwn o bobl wedi mynychu eu gwasanaethu Nadolig yn 2023 (rhy gynnar i gasglu ffigurau 2024 ar hyn o bryd) sy'n 20% yn uwch na'r Nadolig blaenorol ond yn llai na Nadolig 2019 a ddenodd 2.30 miliwn o addolwyr.

Mae'r eglwys yn cael ei thynnu i mewn yn ara bach i fyd sy'n mesur llwyddiant yn ôl niferoedd.

Tra bo llwyddiant rhaglen deledu yn cael ei fesur gan ffigurau gwylwyr, tybed a yw'n deg i ddefnyddio ffigurau i fesur 'llwyddiant' oedfa neu eglwys? Yn wir, rwy'n amau a ddylid defnyddio'r gair 'llwyddiant' o gwbl wrth gyfeirio at oedfa. Onid y fendith a brofir gan unigolyn wrth fynychu oedfa sy'n bwysig? Ac oni ellir derbyn bendith fawr mewn cwmni bach?



Gobeithio y bydd y flwyddyn hon yn gyfle i ni brofi'r fendith – pa faint bynnag fydd yn y cwrdd.



**GWEDDI'R FLWYDDYN NEWYDD**




**Mawrygwn y fraint o gael cerdded i mewn i'r flwyddyn newydd**
**yng ngoleuni ac yn ysbryd Gŵyl y Nadolig sy'n cyhoeddi mai Duw Immanuel,**
**Duw gyda ni, wyt ti yn Iesu Grist.**

**Ni wyddom, ein Tad,**
**yr hyn sydd o'n blaenau y flwyddyn newydd hon.**

**Efallai y cawn wynfyd a iechyd,**
**ond efallai adfyd a phrofedigaethau.**

**O Dad, dyro inni ysbryd ymddiriedaeth y byddi gyda ni ar hyd y daith,**
**ac ysbryd doethineb i gydio yn dy law,**
**ac i lynu'n ffyddlon wrthyt.**

**Er mwyn Iesu Grist**

**Amen**

***Gweddi gan Corona Ef yn Ben***

# DARLLENIADUR

| Mis Ionawr | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Mathew 2: 1-12 |
| Wythnos 2 | Luc 3:15-17; 21-22 |
| Wythnos 3 | Ioan 2: 1-11 |
| Wythnos 4 | Luc 4: 14-21 |

## DIOLCH YN FAWR

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**ac**
**ALUN A CAERWEN GIBBARD**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

***AT SYLW AELODAU'R PRIORDY***
***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**
**Croeso i chi gysylltu ag e!**



## DIACON NEWYDD YN HEOL AWST



**Llongyfarchiadau i Janet Evans a da ei gweld yn holliach erbyn hyn**

**Elinor Wyn Reynolds…**

## OEDFA NADOLIG PIP DAN OLAU CANNWYLL



***MAE*** rhywbeth rhyfedd yn digwydd dan olau cannwyll, rhyw ledrith na all rywun ei esbonio. Mae wynebau pawb yn edrych yn wahanol yng ngolau cannwyll. A dyna ble'r oeddem ni wedi ymgasglu'n ddisgwylgar ar nos Sul 1 Rhagfyr er mwyn cychwyn tymor yr Adfent yng nghwmni pobl ifanc y Priordy. Roedd 15 ohonynt yno i'n tywys ni drwy oedfa hyfryd a meddylgar. Diolch i bob o'r criw am fod mor ardderchog.

Yn gyntaf i'r pulpud roedd Tomos Huw i'n croesawu ac i roi gair o weddi gan gyfeirio at y golau ac at obaith, a hynny ar adeg pan fo'r byd yn teimlo'n reit ddiobaith. Yna daeth Syfi ymlaen a datgan y garol gyntaf gan dynnu sylw at y ffaith fod Bethlehem a Chalfaria, y preseb a'r groes, yn cael eu crybwyll yn y garol sef 'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio' (C. F. 448).



Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad ar gyfer cynnal y cinio Nadolig sy'n cael ei drefnu gan y Bedyddwyr Saesneg yn y dref a gasglwyd gan Noa, Iestyn, Miriam ac Olwen, fe gawsom wrando ar gerddoriaeth hyfryd. Cyhoeddodd Mac y garol nesaf sef 'Ganol gaeaf noethlwm' (C. Ff. 466).

Tro Gwilym a Trystan oedd hi nesaf, a'r ddau'n cael sgwrs hamddenol am bêl-droed (gan anwybyddu ffawd Cymru ar y cae rygbi, chware teg), dyma'r ddau'n hel atgofion am hanes pêl-droed yng Nghymru am mai yn Wrecsam yn 1864 y cychwynnodd y clwb cyntaf. Ac fe chwaraewyd y gêm bêl-droed gyntaf gan Gymru yn erbyn yr Alban, pan gollodd Cymru 4–1. Roedd mwy ganddyn nhw i'w ddweud am bêl-droed ond byddai'n rhaid i ni aros i glywed am hynny yn nes ymlaen.

Daeth Iestyn i gyhoeddi'r garol nesaf, sef 'O mor dlws yw stori'r geni' a hynny ar dôn go arbennig, sef cerddoriaeth 'Match of the Day'. A ninnau fel cynulleidfa yn gobeithio i ni anelu at gefn y rhwyd gyda'n canu ac nid cael *own goal*.



Daeth Caleb, Noa ac Ethan wedyn i roi ychydig o hanes y gêm bêl-droed enwog honno a gafwyd rhwng yr Almaenwyr a'r Prydeinwyr amser Nadolig adeg y Rhyfel Mawr yn 1914. Tra bu i'r gyflafan erchyll bara am bum mlynedd, ble collwyd miloedd ar filoedd o fywydau'n ddiangen, adeg y Nadolig, am gyfnod byr, daeth yr ymladd i ben am gyfnod a'r milwyr o'r ddwy ochr yn dod mas i gwrdd â'i gilydd ar dir neb a chwarae gêm bêl-droed. A nhwythau ymhell o gartref dros gyfnod yr ŵyl,

roedd pobl wedi anfon anrhegion syml at y milwyr i'w cysuro, ar y ddwy ochr. Bu'r dynion hefyd yn canu carolau i'w gilydd ar draws maes y gad. Ac am ychydig bach o amser, bu heddwch adeg rhyfel. Chwaraewyd ffilm o gôr yn canu 'Stille Nacht' (Tawel Nos) sef un o'r carolau a ganwyd ar y noson honno. Yna daeth Marged, Miriam ac Olwen i sôn mwy am y digwyddiad hwnnw ac am heddiw. Er i'r noson honno fod yn un hollol arbennig – un ble cyfnewidiodd y dynion ar faes y gad anrhegion a thynnu lluniau gyda'i gilydd yn frawdol – buan yr anghofiwyd am y noson gyfeillgar honno, ac aeth y rhyfel gwaedlyd ymlaen am bedair blynedd arall. Dyma oedd y rhyfel oedd am roi diwedd ar bob rhyfel, ond fel y gwelwn ni heddiw, fu hynny ddim yn wir, ddim o bell ffordd. Mae pobol ifanc y Priordy yn dyheu am gael heddwch yn ein byd ni.

Osian ddaeth wedyn i ddarllen mewn modd deallus y darn gobeithiol allan o Eseia pennod 9 sy'n sôn am y mab a aned i ni, yr un a ddaeth i fod yn dywysog heddwch.

Yna daeth Gwenan ac Elliw i offrymu gweddi gan ein tywys ni yn ôl at y geni gwyrthiol hwnnw a ddigwyddodd dros ddwy fil o flynyddoedd, pan aned yr un sy'n rhoi gobaith i ni bob tro, hyd yn oed mewn dyddiau du. Iestyn gyhoeddodd y garol olaf sef 'Odlau tyner engyl' (C. Ff. 462) cyn i Tomos Huw ddirwyn y gwasanaeth i ben gyda'r fendith.



***YN*** wir, mi gawsom ni gyd fendith o fod yno'n gwrando ar y neges wrth olau cannwyll ar nos Sul cyntaf Rhagfyr. Gan obeithio y caiff pob un ohonoch Nadolig bendithiol.



## DIACONIAID NEWYDD CAPEL ELIM



**O’r chwith i’r dde gyda’n Gweinidog: Anona Defis, Nia Evans, Ann Walters, Bet Jones ac Alison Evans**

## YSGOLION SUL YN DATHLU’R NADOLIG



**TE PARTI ELIM**



**TE PARTI’R PRIORDY**

## OEDFA NADOLIG ELIM, FFYNNON-DDRAIN

***B'NAWN*** Sul, 8 Rhagfyr, sgubodd Storm Darragh ar draws ein gwlad gan adael Ffynnon-ddrain heb drydan! Roedd plant yr Ysgol Sul wedi bod yn paratoi ers wythnosau ar gyfer eu hoedfa Nadolig ac ar gyfer ymweliad Siôn Corn a pharti, ond… dim trydan - dim gwres, na sgriniau, na system sain, na phaned yn y festri! Ni lwyddodd Storm Darragh i dorri ar draws Dathliad Nadolig Elim! Symudwyd yr oedfa a'r bwyd i festri Heol Awst, a diolch i'r aelodau am ganiatáu i ni ddefnyddio'r festri ar fyr rybudd. Os digwydd fod rhywun wedi troi lan yn Elim am 3.00 ar 8 Rhagfyr, ymddiheuriadau fod y drws ar glo! Gwnaed pob ymdrech bosib i gysylltu â phawb, ond heb drydan – dim we/ebost, a dim ffôn!

Cafwyd oedfa gofiadwy iawn yn Heol Awst dan arweiniad plant yr Ysgol Sul. Roedd y rhannau arweiniol yng ngofal rhai o'r rhieni sef Rob, Leisa, Aled, a Menna. John, ein horganydd ffyddlon, oedd yn cyfeilio a Brian yn cyhoeddi.

Daeth tro Ysgol Sul Elim a chawsom ein cyflwyno ar unwaith i ddwy fydwraig, sef Luned ac Enlli a oedd yn brysur tu hwnt yn delifro babis ym mhob man! Daeth neges frys ar draws y sgrîn gan Joseff (Isaac) yn dweud wrth y ddwy i hastu i Fethlehem gan fod Mair (Gwenno Nant) yn mynd i gael babi!

Swynwyd y gynulleidfa niferus iawn gan leisiau hyfryd yr angylion, sef Nansi, Gwenno Penlan a Lara yn canu 'Pwy ddaeth at Mair?'.

Gwelwyd y ddwy fydwraig yn ymbalfalu â map wrth geisio dod o hyd i Fethlehem, yn sŵn y gân 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem'. Ond yn y diwedd, bu rhaid troi at y Sat Nav. Llanwyd y sgrîn fawr yn y festri â chyflwyniad gan lais y Sat Nav yn arwain y merched i bob man ond Bethlehem! Diolch eu bod wedi sylwi ar y seren yn yr awyr a oedd yn llawer mwy dibynadwy na'r Sat Nav! Arweinodd Gwenno Nant y gân 'Dilyn y Seren' a'r plant i gyd yn ymuno yn y garol hyfryd hon.



Wedi ymdrech fawr, daeth y ddwy fydwraig o hyd i Mair a Joseff yn y stabl ym Methlehem a'r baban Iesu wedi cael ei eni. Daeth y bugeiliaid a'r doethion yn eu tro ac yn gwmni iddynt yn y stabl roedd yr anifeiliaid a chafwyd hwyl wrth ganu 'Cân yr anifeiliaid'.

Ymunodd y mamau a'r babanod bach gyda'r plant i ddiweddu'r rhan hon o'r oedfa drwy ganu cân 'Pen-blwydd Hapus i'r baban Iesu.'

Oedfa lawen a chofiadwy iawn. Diolch yn fawr iawn i'r rheini am bob cymorth a chefnogaeth ac yn arbennig i Miriam am lunio'r sgript a pharatoi'r oedfa.

Wedi canu'r garol olaf, daeth cnoc ar ddrws y festri. Siôn Corn oedd yno, wedi derbyn neges destun oddi wrth Beti-Wyn yn rhoi gwybod iddo bod yr oedfa wedi symud o Elim i Heol Awst. Diolch ei fod wedi derbyn y neges mewn pryd! Bu'n hynod o hael i'r plant, ond roedd pob un ohonynt yn haeddu anrheg fechan gan eu bod wedi bod yn hynod o ffyddlon i'r Ysgol Sul drwy'r flwyddyn ac wedi cynnal oedfa Nadolig fendigedig.



Dim ond un peth oedd ar ôl – Te Parti! A diolch am y wledd hynod o flasus.

***D***o, bu'n b'nawn a fydd yn aros yn y cof am amser hir, ac yn ddathliad gwirioneddol o wir ystyr y Nadolig.

**RHAGHYSBYSIAD**
**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 28 MEDI 2025 am 5**

**Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP**

**Arweinydd**

**Pat Jones, Caerfyrddin**

**Rihyrsals ar Nos Sul am 5 yng Nghapel y Priordy - 13 Gorffennaf 2025, yng Nghapel y Tabernacl – 7 Medi 2025 ac yng Nghapel Heol Awst – 14 Medi 2025 (Prif Rihyrsal yng ngofal yr Arweinydd)**

**Teuluoedd Ysgol Sul Elim yn mwynhau pizza yn Grain i ddathlu'r Nadolig!**




**Diolch yn fawr iawn i Haydn Williams, Llangain am ei garedigrwydd yn cyflwyno conau parcio i bum eglwys yr Ofalaeth**



# OEDFA NADOLIG HEOL AWST

***FORE*** Sul, 15 Rhagfyr, braf oedd gweld y festri'n llawn ar gyfer Oedfa Nadolig Heol Awst yng nghwmni aelodau Elim a'r Priordy. Llio Dyfri oedd yn cyfeilio ar y trydydd Sul yn nhymor yr Adfent, a Sul cynnau cannwyll Llawenydd ar y dorch.


Wedi i Beti-Wyn arwain mewn gweddi ac estyn croeso i bawb, ymunodd y gynulleidfa i gydganu Cân y Canhwyllau ar y dôn 'Y Preseb' wrth weld tair cannwyll yn cael eu cynnau ar y dorch.



Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad gan Nigel George, canwyd y garol 'Wele'n gwawrio ddydd i'w gofio' a gyflwynwyd gan Delyth Barnham. Dilynwyd hyn gan ddeialog rhwng Carys a Gethin Hopley, dau o aelodau ifainc newydd Heol Awst, yn rhestru'r cyfrif a geir ddydd Nadolig, gan fynd i lawr o ddeg i rif un, y rhif pwysicaf, Un Achubwr, Un Emaniwel, un baban gydag un fam ac un tad. Y baban hwnnw sy'n gwneud y Nadolig yn arbennig.

Cyhoeddwyd y garol nesaf, 'Mae'r nos yn fwyn' gan Brian Walters o Elim, ac yna soniodd Hywel Evans, Heol Awst, sut daeth Iesu Grist â goleuni i'n byd yn unol â phroffwydoliaeth Eseia - hanes a adroddwyd fel mae'n ymddangos yn yr Hen Destament gan Nia Evans, Elim, cyn i Huw Michael, Y Priordy, ddarllen adnodau o bennod gyntaf Efengyl Ioan. Parti canu Elim a Heol Awst a ddilynodd, wrth i'r aelodau ganu'r garol 'Rhown foliant o'r mwyaf i Dduw y goruchaf'.

Un ffordd o rannu neges y ffydd Gristnogol yw drwy ddathlu'r Cristingl. Rhoddwyd y cefndir i'r dathlu hwn gan Nigel George o Heol Awst a Luned Voyle o'r Priordy. Adroddwyd sut y llwyddodd plant o deulu tlawd iawn i fynd ag anrheg i'r eglwys i'w osod wrth grud y baban. Doedd ganddynt ddim arian i brynu anrheg newydd ond roeddent yn benderfynol o fynd â rhywbeth, felly dyma addurno oren a oedd wedi dechrau llwydo. Torrwyd y darn hwnnw a rhoi cannwyll yn y canol, ynghyd ag addurniadau eraill o gwmpas yr oren. Roeddent ychydig yn bryderus beth ddywedai'r plant eraill, ond roedd yr offeiriad wrth ei fodd gan iddo weld symboliaeth arbennig y lamp yn yr oren. Mae'r lamp yn goleuo'r byd, a'r gwahanol addurniadau i gyd ag ystyr arbennig. I gloi'r hanes



hwn canwyd cân y Cristingl. Yna gweddïwyd gan Beti-Wyn, cyn i Elinor Wyn Reynolds, Y Priordy, adrodd cerdd Y Cristingl o waith Myrddin ap Dafydd, Cyhoeddwyd yr emyn nesaf, 'Rhyfeddu'r wyf o Dduw' gan Eirlys Thomas, Heol Awst.



Wrth weinyddu'r Cymun derbyniodd Beti-Wyn ddiacon newydd yn Heol Awst, Janet Evans, a braf oedd ei gweld wedi gwella'n ddigon da i ddychwelyd i'n plith ar y Sul.



Wedi'r canu'r garol olaf, 'Ar gyfer heddiw'r bore' cafwyd cyfle i gloi gweithgareddau'r bore drwy gymdeithasu dros baned a mins pei.

***AR*** Sul cynnau Cannwyll Llawenydd, bu'r achlysur yn festri Heol Awst y bore hwnnw yn un llawen iawn yn wir.


**Y CRISTINGL!**

**Myrddin ap Dafydd**

| | |
|---|---|
| **Yr oren hwn ar gledr llaw<br>Yw ffrwyth y ddaear hael, a ddaw<br>Â'i hanrheg hi i deulu dyn;<br>Y ffrwyth yw'r ddaear gron ei hun.** | **Anrhegion melys pedwar ban<br>Drwy'r pedwar tymor yw ein rhan,<br>A phan mai du fydd ein gorwelion<br>Cawn gynnau cannwyll yn y galon** |
| **Y cariad nad yw byth ar drai<br>Sydd yn cofleidio'r byd a'i fai<br>Yw'r rhuban coch o Galfari<br>Sy'n dal yn dynn amdanom ni.** | **A chynnau gobaith gwyn o hyd<br>Yng nghefn nos gaeaf oer ein byd;<br>Awn â'n Cristingl tua thref<br>Ac yn ein llaw bydd lluniau'r nef.** |

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

## PARTI ELIM A HEOL AWST



## PARTI MEIBION Y PRIORDY



## PARTI MERCHED Y PRIORDY



**Meinir Jones..**



## Gwasanaeth Nadolig 2024 Capel y Priordy
## Y Stori Fawr

***WRTH*** i Beti-Wyn estyn croeso cynnes i'r gynulleidfa niferus, yn blant, aelodau, teulu a ffrindiau, i'r gwasanaeth Nadolig i ddathlu gwyrth y geni, dywedodd ei bod hi'n wyrth ein bod ni yno o gwbl, o gofio'r tywydd stormus y penwythnos hwnnw. Ond nid oedd hyd yn oed storm rymus Darragh yn mynd i allu sefyll yn ffordd plant Ysgol Sul y Priordy, ac roedden nhw'n amlwg yn llawn cyffro i gymryd rhan yn yr oedfa.

A hithau'n ail Sul yr Adfent, pan oleuir yr ail gannwyll sef cannwyll heddwch, cychwynnwyd y gwasanaeth drwy gyd-ganu 'Cân y Canhwyllau', cyn i Myfi a Deio gyflwyno'r garol gyntaf, 'Pan anwyd Crist' gyda'r gynulleidfa'n uno i ganu.


Yn dilyn y cyhoeddiadau a'r casgliad, at waith yr ysgol Sul, canwyd yr ail garol, 'I orwedd mewn preseb', a gyflwynwyd gan Nel Jones, cyn i Cadi Wyn ddarllen hanes Joseff a Mair yn teithio i gofrestru ym Methlehem, a geni Iesu yno. Roedd cân Parti Merched y Priordy, 'Ganol Gaeaf Noethlwm' yn ategu'r hanes hwnnw.

Adroddwyd cerdd gan Greta a Martha yn sôn am lawenydd y Nadolig cyn i Alys a Beca ddod ymlaen i weddïo, gan ddiolch am eni Iesu ac yn gobeithio am heddwch yn ein byd. Cafwyd cân gan Barti Bechgyn y Priordy, 'Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod', cyn i ni gyrraedd uchafbwynt yr oedfa, sef cyflwyniad gan yr Ysgol Sul ar y thema 'Y Stori Fawr'.

Roedd y sgript, gan Angharad a Lowri, dwy o athrawon yr ysgol Sul, yn plethu'r presennol a'r gorffennol yn gelfydd iawn. Yn yr olygfa agoriadol, ar noswyl Nadolig, roedd tad (Tomos) yn adrodd hanes stori'r geni i'w blant (Cadi ac Ifan), er mwyn ceisio eu cael i fynd i'r gwely a chysgu. Ac yna daeth yr hanes yn fyw o'n blaenau wrth i ni gael ein cludo i Fethlehem i gyfeiliant y gân 'Nadolig' gan Beca ac Aneirin, oedd yn sôn am gofio geni Gwaredwr mawr y byd. Cawsom gwrdd â'r pentrefwyr (Gwenlli, Brychan a Nyfain) a Mair a Joseff (Lliwen a Gwern) oedd yn flinedig iawn ar ôl y daith hir.

Roedd y golygfeydd yn symud yn ôl ac ymlaen rhwng y presennol a'r digwyddiadau ym Methlehem, a hynny'n fodd o gyflwyno hiwmor, gyda'r plant yn holi pam na fyddai Joseff a Mair wedi cael tacsi yn lle

asyn, ac oni fyddai modd newid y stori fel eu bod yn mynd i westy'r Ivy Bush! Ond fel yr eglurodd y tad, doedd dim modd newid y stori. Ac felly, dyma ni'n gweld y lletywyr (Nel a Beca Luned) yn gorfod egluro wrth Mair a Joseff, fod "busnes yn bŵman" a bod dim lle yn y llety, cyn i un o'r lletywyr gynnig lle iddynt yn y stabal. Yna canodd Lliwen a Gwern y gân, 'Hen, Hen Stori!' am y seren wen uwchben y byd, a'r trysor drud yn y gwair.



Wedi i ni glywed bod Iesu wedi'i eni a'i roi yn y preseb, unodd y plant i ganu "Ar noson dy eni Di" cyn i ni gwrdd â'r bugeiliaid (Aneirin, Sianco, Hedd, Brynmor, Ilan a Meurig) gydag un ohonynt yn poeni bod twll yn ei welingtons! Yna daeth yr angylion (Greta Fflur, Martha Nel, Cadi Wyn, Alys, Mali, Miriam, Neli, Lili a Non) ar "flying visit" gyda newyddion da o lawenydd mawr. Ond na, nid welingtons newydd ond yn hytrach geni brenin newydd, Crist yr Arglwydd, oedd dipyn yn well na chael welingtons newydd! A bant â'r bugeiliaid i fynd ag anrheg i'r baban, wrth i'r gynulleidfa fwynhau cân gan yr angylion.

Yn eu tro daeth y doethion (Osian, Gwydion a Meredydd) gan ddilyn y seren newydd ddisglair ond aethon nhw i'r lle anghywir i ddechrau gan feddwl ar gam y byddai Brenin newydd yn cael ei eni mewn palas. Yno daethant ar draws y brenin Herod (Greta Marged). Wrth i'r doethion fynd yn eu blaenau i chwilio am fan geni cywir Iesu, cawsom berfformiad o'r gân 'Herod' gan Greta oedd yn dangos gwir gymeriad y brenin cas hwnnw.

Daeth y cyflwyniad i ben wrth i'r doethion gyrraedd y stabal, lle'r oedd Joseff a Mair a'r baban Iesu, a rhoi eu hanrhegion o aur, thus a myrr iddo, gyda'r plant i gyd yn ymgasglu yn y sedd fawr i ganu yn llawn bwrlwm 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem'.



Wel am wledd gafodd y gynulleidfa yn ystod yr oedfa a rhaid canmol pob un o'r plant am wneud eu gwaith yn wych, o'r rhai a gymerodd at y rhannau arweiniol ar ddechrau'r oedfa i'r rhai a oedd yn y cyflwyniad. Yn sicr mae yna dalent yn Ysgol Sul y Priordy, yn llefarwyr, actorion a chantorion, a diolch i Angharad a Lowri am y sgript arbennig a roddodd gyfle i'r plant i arddangos eu holl ddoniau.

***DIOLCHODD*** Beti-Wyn i holl athrawon yr Ysgol Sul, y rhieni, yr offerynwyr, y cyfeilyddion, y technegwyr a'r organydd, a phawb oedd wedi helpu mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys Tomos o PIP. I gloi'r oedfa unwyd i ganu 'Clywch lu'r nef yn seinio'n un', cyn i bawb ymlwybro i'r festri, yr oedolion i gael diod a mins pei a sgwrs, a'r plant i fwynhau eu parti Nadolig haeddiannol iawn ar ôl eu holl waith caled.

**OEDFA NADOLIG ELIM**




**OEDFA NADOLIG Y PRIORDY**



# PLYGAIN 2024



Rhyfedd meddwl fod traddodiad y Plygain yn perthyn i bob rhan o Gymru ar un adeg cyn iddo ddiflannu o'r rhan fwyaf o ardaloedd i bob pwrpas – ac eithrio'r Canolbarth. Diolch i Amgueddfa Sain Ffagan ac i Roy Saer yn fwyaf arbennig a'r recordiau byr a hir a gyhoeddwyd, ailsefydlwyd y traddodiad mewn rhannau eraill o'r wlad mewn amser. Mae'n diolch yn fawr i Ferched y Wawr am barhau i gynnal y traddodiad hwn yng Nghaerfyrddin.

Cynhaliwyd y Plygain eleni ar ail Sul yr Adfent yng Nghapel Heol Awst yn y dref. Bu'n benwythnos cythryblus o ran y tywydd ond er gwaethaf hyn, daeth cynulleidfa dda ynghyd, i gymryd rhan a mwynhau'r achlysur.

Estynnwyd gair o groeso a gweddi ar y dechrau gan y Parchedig Beti-Wyn James. Esboniodd i ni hefyd arwyddocâd y cyfnod wrth i ni gynnau'r ail gannwyll ar Dorch yr Adfent – Cannwyll Heddwch.

Cafwyd eitemau amrywiol a diddorol gan Gapeli Penuel, Y Babell Zion Newydd, Elim, Heol Awst ac Elim, Yr Urdd – Adran Ffynnon-ddrain, Merched y Priordy, Côr Tonic, Yr Ysgol Farddol, Criw Llangynnwr, Y Tabernacl, Meibion y Priordy, Clwb Ffermwyr Ifainc a Chôr Seingar.

Canwyd tair carol gan y gynulleidfa i gyfeiliant Olga Williams wrth yr organ - O dawel ddinas Bethlehem, Ar gyfer heddiw'r bore a Clywch Iu'r nef yn seinio'n un. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchedig Beti-Wyn James.

Aeth yr arian a godwyd drwy werthiant y rhaglenni at Ambiwlans Awyr Cymru.

Diolch i bawb a gymerodd ran- o'r to ifanc i'r rhai hŷn - ac am wneud hynny mor raenus ac ystyrlon.  Diolch hefyd i Ferched y Wawr am y trefniadau. Mor briodol, a ninnau yng ngolau Cannwyll Heddwch, oedd gweld y cwpled isod ar y rhaglen sy'n sicr yn cyfleu dyhead pob un ohonom y Nadolig hwn:

A dyma'r Nadolig i weithio fel un
i geisio am heddwch a byw yn gytûn.

## YN ARWAIN AT Y NADOLIG

➪ **25**

### Sul 22 Rhagfyr 2024

### Yn y bore

Cynhaliwyd gwasanaeth Llith a Charol yn y Priordy ar gyfer yr ofalaeth gyfan. Wedi cynnau canhwyllhau'r Adfent a chanu Carol y Canhwyllau cymerwyd rhan gan Olga Williams (HA), Joan Thomas (HA), Alun Charles (P), Catrin Heledd (P) a Tom Defis (E). Cafwyd gair gan ein Gweinidog. Teithiodd Mair a Joseff, y bugeiliaid a'r doethion bellter oddi cartref i gwrdd â'r Baban Iesu, gan ddychwelyd gydag ystyr newydd i'w bywydau a ffordd newydd o feddwl. Yn yr un modd, mae galw arnom ninnau hefyd, beth bynnag fydd ein hynt y Nadolig hwn, i deithio oddi cartref dros yr Ŵyl mewn meddwl a magu ystyr newydd i'n bywydau. Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ a'r cyhoeddwr oedd Carys Morgans. Mwynhawyd gwin cynnes (di-alcohol!) a mins pei gyda'n gilydd wedi'r gwasanaeth.



### Yn yr hwyr

Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw, doedd hi ddim yn bosibl cynnal yr Orymdaith arferol drwy bentref Bancyfelin y tro hwn ond yr un mor amlwg oedd y brwdfrydedd dros ddathlu'r Nadolig yn yr oedfa yn y capel. Wedi gair o groeso gan ein Gweinidog cynheuwyd canhwyllau'r Adfent a chydganwyd Carol yr Adfent.  Mwynhawyd cyfres o gyflwyniadau yn ystod yr oedfa gan Deulu Plas Cowin (Gareth, Mari Grug, Tomos, Steffan a Hanna), Teulu Meidrim (Enlli ac Alffi), ac Eirian Thomas a Trefina Jones, a hwythau yn eu tro yn ein hatgoffa o rai o draddodiadau'r Nadolig, fel Y Pwdin Dolig, y Yule Log, a'r Mins Pei, a'r symbolau sy'n perthyn iddynt.  Cyflwynodd Hanna Howells y darlleniad o Efengyl Luc a Gwawr Waters y Weddi a Cai Howells a Ben Harvey a'n Gweinidog y carolau.  Diolch hefyd i'n Gweinidog am y trefniadau, yn cynnwys y testun fidio, ac i Angharad Richards wrth yr organ. Cafwyd lluniaeth ysgafn ac ymweliad gan Siôn Corn ar y diwedd.



## Noswyl Nadolig

Am 9 yr hwyr cynhaliwyd Epilog Byr dros Zoom gan ein Gweinidog fel paratoad ar gyfer dydd Nadolig. Roedd y darlleniad yn Ail Bennod Efengyl Luc yn olrhain taith Mair a Joseff i Fethlehem. Drwy gyfrwng




myfyrdod ein Gweinidog cawsom ein rhoi yn sgidiau'r gwestywr a'i gyfyng gyngor wrth iddo orfod cynnig y stabl i Mair a Joseff orffwys ynddo gan fod y llety'n llawn. Yno, yng nghanol yr anifeiliaid, y cafodd y baban bach ei eni, sef Iesu a ddaeth yn Waredwr y Byd. Y digwyddiad hwn a newidiodd gwrs hanes ein byd a dyma'r rheswm pam ydyn ni heddiw yn parhau i'w ddathlu ac i addoli'r Iesu byw.  Gwrandawyd ar garolau a gweddïau pwrpasol.

## Dydd Nadolig



Mae maint y gynulleidfa'n dangos yn glir fod y gwasanaeth byr hwn ar fore'r Nadolig wedi ennill ei blwyf yn go iawn! Daeth teuluoedd ymlaen ar y dechrau i gynnau'r canhwyllau ar y Dorch Adfent – Cannwyll Gobaith – Llinos Elfyn Noa a Nel, Cannwyll Heddwch - Meilyr, Teleri, Alys a Mali, Cannwyll



Llawenydd - Catrin a Rhydian, Siwan a Greta, Martha a Iago, Cannwyll Trugaredd - Huw a Carys Morgans, Tomos Huw, Ifan Noa a Cadi Fflur a'r tro hwn y gannwyll yn y canol, sef Cannwyll Goleuni - Carys a Gareth, Cadi Wyn a Hedd Ifan. Canwyd Carol y Canhwylliau gennym yn gyflawn felly!  Diolch i Mared (Darllen o Luc 2) a Gwenllian (Gweddi) am gymryd at y rhannau arweiniol. Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ. Roedd y gynulleidfa wrth ei bodd yn cael gweld rhai o anrhegion y plant.  Heb os nac onibai, bu Siôn Corn nid yn unig yn garedig ond hefyd yn hynod o anturus a dychymygus!  Cawsom stori hyfryd gan ein Gweinidog am y ffyn candi sy'n addurno'r goeden Nadolig.  Mor debyg yw ffon candi i ffon bugail a chofiwn am Iesu'r Bugail Da yn gofalu amdanom. Coch a gwyn yw lliwiau'r ffon candi sy'n ein hatgoffa mor bur a glân oedd Iesu ond hefyd iddo farw trosom ar y Groes. O osod dwy ffon candi at ei gilydd cawn siâp calon sy'n arwydd o gariad Duw yn anfon ei Fab atom er mwyn i ni garu'n gilydd. Diolch i'n Gweinidog am ddechrau mor hyfryd i'r diwrnod arbennig hwn - ac am y rhodd o ffon candi wrth i ni ymadael!



# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

## Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'A'


Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | A fo ben bid …. |
| | |
| 2 | A fynno Duw a --- |
| | |
| 3 | A laddo a ----- |
| | |
| 4 | A ŵyr leiaf a ddwed ----- |
| | |
| 5 | Adar o'r unlliw, hedant i'r ---- |
| | |
| 6 | Aml gnoc a dyr y ------ |
| | |
| 7 | Amser a ----- |
| | |
| 8 | Amser dyn yw ei -------- |
| | |
| 9 | Anodd tynnu cast o hen ----- |
| | |
| 10 | Arf doeth yw ---- |

Atebion ar Dudalen 31

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**Coeden Nadolig o flaen Cadeirlan Kazan yn St Petersburg, Rwsia**



**Eglwys Uniongred Rwsiaidd yw Eglwys Gadeiriol Kazan a leolir ar gornel ogledd-orllewinol y Sgwâr Coch ym Moscow, Rwsia.**

**Mae'r adeilad presennol yn ailadeiladu'r eglwys wreiddiol, a gafodd ei dinistrio ar orchymyn Joseph Stalin ym 1936.**

**Mae mwy na 200 miliwn o Gristnogion ledled y byd yn gysylltiedig ag Eglwysi Uniongred.**

**Mae'r rhan fwyaf yn dathlu'r Nadolig ar 7 Ionawr wrth iddynt ddilyn calendr Julian, yn wahanol i'r enwadau Cristnogol hynny sy'n dilyn y calendr Gregoraidd.**

## APÊL ANRHEGION NADOLIG CYNGOR SIR GÂR







**Diolch yn fawr iawn i chi am eich ymateb anhygoel i'r apêl hon eleni eto. Rydych wedi gwneud gwahaniaeth mawr i Nadolig cannoedd o deuluoedd yn Sir Gâr.**
**Diolch eto.**

## Ifanc@Gofalaeth

# BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB 2025

### Nadolig



Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am arwain gwasanaethau Nadolig gwych eleni eto. Roedd yn bleser eich gweld a'ch clywed. Mae adroddiadau llawn o'r gwasanaethau mewn man arall yn y papur hwn. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr Ysgol Sul am eu gwaith ac i'r rheini am bob cefnogaeth.


### Calendr Adfent Digidol



Diolch i bawb o deuluoedd yr eglwys a'r Ysgolion Sul a gyfrannodd at y calendr adfent digidol yn ystod mis Rhagfyr. Roedd pob cyfraniad yn wych!

### Facebook

Cofiwch ddweud wrth eich teuluoedd a'ch ffrindiau i'n dilyn ar Facebook. 'Elim, Ffynnonddrain' a 'Capel Y Priordy'.




### Pôs

Fedrwch chi ein helpu i ddod o hyd i'r ffordd o 2024 i 2025?

Rota'r Ysgolion Sul yn ymddangos mewn man arall yn y papur hwn

# CHWILOTAIR LLYTHYREN 'W'

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| H | N | I | Y | Y | N | W | F | S | E | L | E | R | O |
| O | Y | W | S | N | Y | Y | T | E | Y | T | N | L | W |
| R | S | W | R | I | H | S | N | R | W | Y | E | W | I |
| T | O | B | E | W | R | G | W | Y | D | N | R | A | B |
| W | N | L | W | L | N | W | Y | W | O | R | B | T | W |
| A | H | O | W | T | E | L | S | E | M | E | Y | Y | W |
| E | T | D | F | W | W | S | W | W | E | W | W | T | D |
| W | Y | S | D | D | E | R | B | M | W | W | T | N | W |
| N | W | E | L | W | Y | N | E | P | D | R | I | S | T |
| W | S | W | L | B | W | W | Y | W | N | H | Y | E | T |
| A | E | Y | E | W | Y | L | O | T | W | D | W | A | L |
| Y | R | N | L | T | D | L | H | D | P | W | R | S | Y |
| S | Y | T | E | D | E | F | H | T | Y | W | M | G | B |
| W | Y | Y | E | Y | E | D | E | L | L | I | Y | E | W |

WYTHNOS
WYNEPDRIS
WYNEB
WYSG
WAL
WELE
WYBREN
WYLO
WEMOD
WMBREDD
WYTHFED
WYRES

**Adnod i feddwl amdani…**

'Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo – aur a thus a myrr' (Mathew 2:11 beibl.net)

Hwyl am y tro!
Beti-Wyn

# BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL





















## WILLIAM 'CRWYS' WILLIAMS

## (1875-1968)



Ganed Crwys ar 4 Ionawr 1875, cant a hanner o flynyddoedd yn ôl i'r mis hwn, yng Nghraig Cefn Parc, Clydach, yn fab i grydd, Bu'n dysgu'r grefft honno ei hunan am gyfnod cyn mynd yn weinidog. Cafodd ei godi i bregethu yn Eglwys Pant-y-crwys. Treuliodd gyfnodau yn Ysgol Watcyn Wyn, Rhydaman, Coleg Bala Bangor, a Choleg Prifysgol Bangor cyn dechrau ar gwrs diwinyddol. Yn 1898, cafodd ei ordeinio'n weinidog yn Rehoboth, Bryn Mawr. Yn yr un flwyddyn priododd â Grace Harriet Jones a chawsant ddau fab a dwy ferch. Ym 1915 daeth yn gynrychiolydd y Feibl Gymdeithas yn y de – swydd y bu ynddi nes iddo ymddeol ym 1940. Rhwng 1946 a 1953 bu'n gofalu am eglwys Rhyddins (Saesneg) yn Abertawe. Bu farw, 13 Ionawr 1968 a'i gladdu ym mynwent Pant-y-crwys.

Roedd Crwys yn eisteddfodwr amlwg. Enillodd goron yr Eisteddfod Genedlaethol deirgwaith a bu'n Archdderwydd Gorsedd y Beirdd rhwg 1939 a 1947.

Cyhoeddodd bedair cyfrol o gerddi ac ysgrifennodd dwy gyfrol o atgofion. Bu ei adroddiadau i blant ac oedolion hefyd yn boblogaidd iawn mewn eisteddfodau yn ail chwarter yr 20 ganrif. Fe'i cofir fel awdur telynegion adnabyddus fel 'Dysgub y Dail', Melin Trefin', 'Siôn a Siân', 'Y border bach', a 'Y sipsi'.

Mae gan Crwys un emyn yn Caneuon Ffydd, sef Rhif 660. Emyn cymun yw hwn a dyma'r pennill olaf:

Na foed yn edrych arnaf ond dy hun,
tydi all weld a maddau beiau dyn;
ac na ddisgynned bellach ar fy nghlyw
ond llais tangnefedd a maddeuant Duw.

# Drama'r Nadolig

Roedd festri Capel Bethel
yn gyffro drwy'r lle yn grwn,
a'r plant yn cael eu rhannau
at ddrama'r Nadolig hwn.

Rhoed rhan i fod fel angel
i bob merch dros ddwy flwydd oed.
I Huw rhoed rhan yr asyn
achos asyn fuodd o rioed.

Roedd Cai'n cael bod yn Joseff
a Sophie'n cael bod yn Mair,
a Deio'n cael bod y ddafad
oedd yn pesgi yn y gwair.

Criw Bronwydd oedd Gwŷr y
Dwyrain
ond fe ddwedwyd celwydd noeth -
nid tri oedd yno ond pedwar,
a do'n nhw ddim yn ddoeth.

Lletywr ydoedd Sharon,
lletywr 1 a 2 a 3
am fod ei mam yn berchen
ar sawl Airbnb.

'Dwisho chi berffomio'ch rhannau,'
medd Miss Mathias, 'Yn tip top.
A chi fydd yn gyfrifol
am eich gwisgoedd, a phob prop.'

Rhan chydig yn wahanol
oedd Dafydd fod i'w wneud
sef rhan yn storio pethau,
dyna oedd Miss di'i ddweud.

Ddaeth Dafydd i'r un ymarfer,
doedd dim amser ganddo, wir,
byddai casglu pethau i'w storio
yn cymryd lot rhy hir.

Roedd ei sgript ar goll o'r dechrau,
ond pa angen sgript ar Dai,
roedd y bachgen yn ddieuog,
a'r cwrci gas y bai.

Mi gymrodd y busnes storio
ei amser oll yn llawn
ac oedd, yn wir roedd Dafydd
isho ei wneud o'n iawn.

Mi brynodd ben blaen asyn -
pwrcasiad eithaf ffôl
achos wedyn roedd o'n methu
fforddio yr hanner ôl.

'Out of stock' oedd yr aur, na biti,
ond er mwyn plesio Miss,
i'r hen Wyvale aeth Dafydd
am lond whilber o'r myrr a'r thus.

Cafodd hyd i seren letrig
a na, nid oedd yn rhad,
mi brynodd hon ar Ebay
efo Mastercard ei dad.

Cafodd goron a siwtiai Herod,
roedd hon yn goron gain,
sef Coron Steddfod Lerpwl
yn nineteen twenty-nine.

Mi brynodd ugain twtw,
roedd rhain yn 'sold as seen',
a phrynu allwedd llety
mewn sêl yn Ffos y Ffin.

Ond yna, er enjoio,
y storio ddaeth i stop
pan oedd y tŷ a'r atic
a'r garej yn llawn dop.

I’r ddrama yng Nghapel Bethel
am bedwar y prynhawn,
roedd tyrfaoedd wedi heidio
a’r llawr a’r llofft yn llawn.

Ac yna cyrhaeddodd Dafydd
a’i fam a’i Nain a’i Daid
a’r stôr o drugareddau
mewn cesys yn ddi-baid.

Ac wedi awr o gario
a hithau’n mynd yn hwyr,
yr annwyl Miss Mathias
oedd wedi drysu’n llwyr.

O rywle, ei dad gyrhaeddodd
a gweiddi, ‘Times are hard.
What have done, young Dafydd,
with my trusted Mastercard?’

Ond wedi’r ddrama honno
cychwynnodd y ddrama iawn,
a chyfle i’r plantos bychain
gael dangos maint eu dawn.

Ac wedi’r garol gyntaf,
at Dafydd trodd pob un
yn disgwyl iddo siarad,
ei ran fawr ef ei hun.

Ond yna Miss Mathias
a basiodd sgript o draw
wrth syllu’n flin ar Dafydd
a’i hwrjio yn ei law.

Aeth ias trwy gorpws Dafydd,
fe sythodd ei holl wallt,
ar ôl y mis o storio
roedd Dafydd ’di cam-ddallt.

Archwiliai’r sgript yr eilwaith,
roedd rhywbeth mawr yn bod,
mi sylwodd o nad storiwr
ond storïwr oedd o fod.

A heno, Ffrindiau’r Blygain,
ein braint yw cadw’r drefn
o storio’r hen, hen stori
a’i hadrodd hi drachefn.

**Cerdd o waith Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones a ddarllenwyd ganddynt yn y Plygain yng Nghapel Heol Awst**

**SUL OLAF MIS RHAGFYR**




**Ar fore’r pumed Sul daeth aelodau Elim, Heol Awst, Y Priordy a’r Tabernacl ynghyd i Heol Awst i gydaddoli. Cymerwyd rhan gan Janet J (HA), Emlyn (P), Bet (E) ac Eirwyn (T). Roedd Olga wrth y piano. Yn ei myfyrdod gofynnodd ein Gweinidog i ni ystyried beth sy’n digwydd wedi’r Nadolig. Dyw geni Iesu ym Methlehem ddim yn ddiwedd yr hanes ac mae’n bwysig i ni i gyd dyfu a datblygu yn Ei gwmni drwy gydol oes.**



Nadolig Llawen







## CORNEL
## CODI GWÊN!

Roedd chwant bwyd ar Deio a phenderfynodd fynd ati i fwyta tudalennau o’r Beibl gan ganolbwyntio’n arbennig ar dudalennau’r Hen Destament. Ymhen rhai oriau, roedd ganddo fola tost a dechreuodd hwdu.  Dywedodd y doctor bod arno ‘*Salm*-enela’!

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | bont | 6 | garreg |
| 2 | fydd | 7 | ddengys |
| 3 | leddir | 8 | gynysgaeth |
| 4 | fwyaf | 9 | geffyl |
| 5 | unlle | 10 | pwyll |

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn, Tudur Dylan Jones ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau’r mis hwn.**

.

**CASGLIADAU ARBENNIG**
**YN Y PRIORDY**

**Casglwyd £200 ddechrau Rhagfyr tuag at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg i’w helpu i baratoi cinio Nadolig a danteithion i deuluoedd llai ffodus na ni yn ein tref.**

**Casglwyd hefyd yn ystod Gwasanaeth Nadolig y Priordy £196.85 at weithgarwch yr Ysgol Sul.**

**Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, Trysorydd, am gadw’r cyfrifon.**

**Siwan Jones…**

## Ein Taith i Riga

## Hydref 2024

Ar yr 23ain o Hydref cefais i a Gwenllian y cyfle i fynd ar daith i Riga, Latfia fel rhan o'n gwobr am ddanfon ein gwaith Hanes i mewn i gystadleuaeth 'Eustory'. Roedd fy ngwaith i yn canolbwyntio ar Ferched Beca a gwaith Gwenllian yn sôn am Brad y Llyfrau Gleision. Gwnaethom fynychu cynhadledd gyda tua 120 o bobl ifanc eraill o Ewrop a thu hwnt. Fe wnaethom gymryd rhan mewn gweithdai a oedd yn edrych ar 'Encountering Divides' a'r newid o fewn hanes wrth i amser fynd yn ei flaen.



Roedd yn gyfle i enillwyr Eustory ar draws Ewrop ddod yng nghyd i gymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau a gweithdai ieuenctid oedd yn sôn am ddehongliadau ac achosion gwahanol o fewn hanes. Yn ystod y 5 diwrnod yr oeddem yno, cawsom y cyfle i rannu hanes ein gwaith buddugol gydag eraill gan ddysgu am ddiwylliant a hanes gwledydd Ewropeaidd gwahanol yn ogystal. Yn ystod ein cyfnod yn Riga, nid yn unig cawsom flas ar ddiwylliannau eraill ond hefyd fewnwelediad i draddodiadau a bwydydd Latfia ei hun. Cawsom swper croesawu mewn bwyty lleol er mwyn dod i adnabod yr ardal yn well. Cawsom ninnau gyfle hefyd i rannu bwydydd traddodiadol Cymru gydag eraill trwy gynnig blas o bice ar y maen a bara brith fel rhan o'r buffet rhyngwladol ar y diwrnod olaf.



Cymerais i ran yng ngweithdy rhif 3, gweithdy ffotograffiaeth oedd yn edrych ar '*Capturing Change: Cities in Transformation*'. Yn y gweithdy yma, edrychom ar sut allwn ni amddiffyn hanes wrth i ddinasoedd ddatblygu ymhellach gan ddarganfod sut mae trawsnewidiadau yn effeithio ar ficrohanes yn Riga ond hefyd ar ein trefi genedigol. Cawsom i gyd rannu hanes adeilad arwyddocaol o'n trefi genedigol sydd wedi datblygu gydag amser ac felly penderfynais sôn am y Guildhall yn sgwâr Caerfyrddin sydd yn symbol o lwyddiant Gwynfor Evans wrth ddod yn Aelod Seneddol cyntaf Plaid Cymru. Archwiliom mewn i ardal hanesyddol, 'Tornakalns' yn Riga sydd yn wynebu trawsnewidiad mawr ar hyn o bryd wrth iddynt adeiladu 'Rail Baltica' yn cysylltu'r Baltig â rhwydwaith rheilffyrdd Ewrop gan edrych sut mae adeiladau'n cael eu dymchwel er mwyn caniatáu newidiadau'r dyfodol.




Bu Gwenllian ar y llaw arall yn rhan o weithdy rhif 6, yn edrych ar Gynhesu Byd Eang gyda'r teitl "*From Negotiations of Actions*". Edrychodd ar sut mae gwleidyddiaeth yn siapio'r ffordd rydym yn siarad am newid yn yr hinsawdd a sut mae profiadau'n ein huno i weithredu i geisio atal Cynhesu Byd eang ar y cyd. Bu'n delio â gwreiddiau hanesyddol gwahanol bolisïau amgylcheddol gan ddatblygu strategaethau ar gyfer camau gweithredu i ddiogelu'r hinsawdd.




Cefais y cyfle i archwilio'r cysylltiadau rhwng gwrthdaro, hanes a chof cyfredol - ac i ddarganfod sut y gellir goresgyn rhaniadau o fewn gwledydd ac ar draws ffiniau. Rwy'n gwerthfawrogi'r profiad o ehangu fy nealltwriaeth ryngwladol gan hefyd fod yn greadigol wrth ddarganfod ffyrdd newydd o edrych ar hanes lleol! Gwnaeth y ddwy ohonom fwynhau yn Riga, ac rydym yn ddiolchgar am y cyfle a gawsom i ddysgu am draddodiadau, diwylliannau a hanes Ewropeaidd newydd.

**Rhian Evans …**



## John Puleston Jones
## 1862-1925

***DOEDDWN*** i erioed wedi clywed sôn am John Puleston Jones tan i mi ddechrau dysgu darllen Braille a deall mai ef oedd yr un a ddyfeisiodd y cynllun Braille Cymraeg. Seiliodd ef ei wyddor Braille ar yr un Saesneg ac erbyn heddiw, mae'i wyddor ef wedi cael ei diweddaru i'w gwneud yn fwy cydnaws â Chymraeg cyfoes.

Ganed John Puleston Jones ar 26ain Chwefror, 1862 yn Llanbedr Dyffryn Clwyd. Symudodd y teulu i'r Bala lle'r oedd gan ei dad fusnes fel saer ac adeiladydd. Collodd Puleston ei olwg trwy ddamwain pan oedd yn blentyn deunaw mis oed. Ond fe ddysgodd ei fam, Mary, iddo wneud cymaint a fedrai heb unrhyw gymorth. Pan dyfodd yn oedolyn fe'i gwelid yn marchogaeth ceffyl ac yn teithio mewn trap a cheffyl ar hyd lonydd ei ardal. Teithiai hefyd ar drenau ar ei ben ei hun a dywedai bod angel ar bob platfform lle disgynnai. Dysgodd y dull 'Moon' o ddarllen geiriau ac yna'n ddiweddarach y wyddor Braille. Defnyddiai deipiadur Braille yn ogystal â theipiadur cyffredin.



Mynychodd yr Ysgol Brydeinig a'r Ysgol Ramadeg yn y Bala a phan oedd yn 16 oed, aeth i Goleg Methodistaidd y Bala lle y disgleiriodd trwy ennill y marciau uchaf ar ddiwedd ei flwyddyn olaf yno ym 1881. Ar ôl treulio blwyddyn yn Ysgol y Deillion yng Nghaerwrangon, aeth gyda Syr Owen M. Edwards i Brifysgol Glasgow i astudio Athroniaeth, ac oddi yno yn 1884 i Goleg Balliol, Rhydychen. Bedair blynedd yn ddiweddarach, graddiodd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Hanes Modern. Roedd ef yn un o'r saith a sefydlodd Gymdeithas Dafydd ap Gwilym yn 1886. Gyda Syr John Morris Jones, aeth Puleston ati i safoni'r iaith Gymraeg gan sefydlu'i horgraff.

Dechreuodd bregethu yn 17 oed yn 1879 ac fe'i ordeiniwyd yn 1888. Derbyniodd alwad i Eglwys Saesneg, Princess Road, Bangor yn 1891. Priododd ag Annie Alun Jones yn 1890 a chawsant ddau o blant. Bu hefyd yn weinidog ar eglwysi Dinorwig, Penmount Pwllheli a Llanfair Caereinion, gan ymddeol yn 1923.

Roedd Puleston yn heddychwr a safodd yn gadarn yn erbyn y Rhyfel Mawr, gan gyfrannu i gylchgrawn yr heddychwyr-'Y Deyrnas'. Pregethodd o'r pulpud yn erbyn y rhyfel a daeth yn arweinydd ei enwad yn y Gogledd ar heddychiaeth. Cyhoeddodd esboniad ar Epistol Iago yn 1899, ac yna yn 1924 ymddangosodd 'Gair y Deyrnas' sef casgliad o'i bregethau.

Roedd yn eilun ei genedl ar sail ei fywyd arwrol, ei amryfal ddoniau, ei fywyd dyngarol a'i gymeriad Cristnogol. Casglodd ei enwad deyrnged ariannol iddo ac urddwyd ef â gradd D.D.gan Brifysgol Cymru yn 1924.

***BU*** farw Puleston ar 21ain Ionawr, 1925 ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Crist, Y Bala. Felly, ganrif yn union ar ôl ei farwolaeth, cofiwn am ei gymwynas, nid yn unig i ddeillion Cymru, ond hefyd am ei ran yn safoni'r iaith Gymraeg, a'i safiad fel heddychwr a Christion brwd.

**CWRDD CHWARTER**
**ELIM, FFYNNON-DDRAIN**



**Dydd Iau, 13 Mawrth 2025**

Y Gynhadledd am 10.30 a Chyfarfod y Prynhawn am 1.30



Bydd Cyfarfod y Prynhawn yng ngofal Pwyllgor Cenhadol y Cyfundeb. Y gwestai fydd Y Parchedig Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyhoeddadau'r Gair sy'n rhan o'r Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru

Trefnir lluniaeth ysgafn rhwng y cyfarfodydd. Croeso cynnes i bawb

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
**Trowch at: cyfundeb.com**

## WYT TI’N COFIO?



Tybed faint ohonoch sy’n cofio canu’r pennill isod ar ddiwedd oedfa? Roedd hi’n arfer gyffredin i wneud hynny ar un adeg.

**Dan dy fendith wrth ymadael**
**y dymunem, Arglwydd, fod;**
**llanw’n calon ni â’th gariad**
**a’n geneuau ni â’th glod:**
**dy dangnefedd**
**dyro inni yn barhaus.**

William Griffiths (1775-1825) yw’r awdur. Dilynodd ei dad, John Griffiths, i’r weinidogaeth a’i olynu yn weinidog ar Eglwys Annibynnol Glandŵr, Sir Benfro. Ni fu’i gyfnod yno’n un dedwydd, fodd bynnag. Calfinaidd oedd diwinyddiaeth llawer o’r eglwys ond barnwyd nad oedd y gweinidog felly. Drwgdybiwyd ei athrawiaeth a chiliodd llawer o’r eglwys a sefydlu eglwys arall o’r enw Hebron. Effeithiodd yr erledigaeth yn fawr ar iechyd William Griffiths. Bu farw 5 Ionawr 1825, deucan mlynedd yn ôl i’r mis hwn.

Roedd diddordeb mawr gan William Griffiths mewn cyfansoddi a chyfieithu emynau. Cyfieithiadau yw’r ddau emyn sydd ganddo yn Caneuon Ffydd, sef Dan dy fendith (22) a Henffych i enw Iesu gwiw’ (304).

Pennill cyntaf yr emyn yw ‘Dan dy fendith..’ Mae dau bennill i gyd yn Caneuon Ffydd (22) ond roedd tri yn wreiddiol. Yr emyn yn y Saesneg gwreiddiol yw ‘Lord dismis us with Thy blessing’ ac fe’i priodolir i John Fawcett (1740-1817), emynydd a gweinidog gyda’r Bedyddwyr.

Rhydd-gyfieithiad o waith Edward Perronet (1726-1792), emynydd a phregethwr, yw Henffych i enw Iesu gwiw’. O’r pedwar pennill troswyd tri i’r Gymraeg gan William Griffiths a’r pedwerydd gan Titus Lewis (`1773-1811), gweinidog y Porth Tywyll yng Nghaerfyrddin a ddaeth yn eglwys y Tabernacl yn ddiweddarach.

## GWASANAETH NADOLIG PLAS Y DDERWEN

## GYDA’N GWEINIDOG











**Ein Papur yn cofio**



**ELEAZAR ROBERTS**
**1825-1912)**

***TYBED*** sawl tro ydych chi wedi canu'r emyn 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw' a morio'r cytgan 'O na bawn i fel efe'??! Rydych chi wedi gwneud hynny mewn sawl oedfa a chymanfa dros y blynyddoedd, siŵr o fod!

Ganed yr awdur, Eleazar Roberts ym Mhwllheli ar 15 Ionawr 1825, sef deucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn ond cafodd ei fagu yn Lerpwl. Yn dair ar ddeg oed aeth i weithio mewn swyddi clerigol yn y byd cyfreithiol a pharhaodd i wneud hynny hyd ei ymddeoliad. Trwythodd ei hunan yn y diwylliant Cymraeg a Chymreig drwy fynd i ddosbarthiadau nos a chymdeithasau capeli Cymraeg Lerpwl.

Ysgrifennodd gofiant Henry Richard, Apostol Heddwch, a hefyd nofel Saesneg, Owen Rees, sy'n adrodd hanes Cymro a fagwyd yn Lerpwl yn ystod ail hanner y bedwaredd canrif ar bymtheg. Ysgrifennai hefyd ar gyfer nifer o gylchgronau.


Fe oedd arloeswr y Tonic Sol-ffa yng Nghymru a theithiodd ledled ein




gwlad i'w egluro ac i sefydlu dosbarthiadau cerddorol. Cafodd ei argyhoeddi o werth y gyfundrefn i ddysgu plant i ganu, yn enwedig yn y Capeli a'r Ysgolion Sul. Trosodd i'r Gymraeg werslyfrau o waith John Curwen, gŵr a ledaenodd y gyfundrefn sol-ffa a grëwyd gan Sarah Ann Glover yn Lloegr. Ei gyhoeddiad pwysicaf yn y maes hwn oedd Llawlyfr y Tonic Sol-ffa. Cyhoeddodd hefyd nifer o weithiau cerddorol yn Gymraeg, yn cynnwys *Llawlyfr Caniadaeth*, *Llawlyfr i ddarllen yr Hen Nodiant* and *Hymnau a Thonau*.

Roedd yn flaenor yn ei gapel yn Netherfield Road Lerpwl ac mae'n debyg ei fod yn un o'r rhai cyntaf i ddod â'r Gymanfa Ganu i Lerpwl yn 1880.

Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn seryddiaeth a byddai'n mynd o gwmpas i ddarlithio ar y pwnc. Bu'n gyfrifol am gyfieithu The Solar System gan Dr Thomas Dick, seryddwr amlwg yn yr Alban, i'r Gymraeg. Ysgrifennodd sawl traethawd hefyd ar seryddiaeth mewn cylchgronau Cymraeg, gan gynnwys darnau yn Y Traethodydd dan y pennawd 'Y Teliscop a'i Ganfyddiadau'.



Bu farw 6 Ebrill 1912 a chafodd ei gladdu ym mynwent Anfield, Lerpwl.

*A* throi'n ôl at ei unig emyn yn Caneuon Ffydd (721) -'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw'. Mynegi dymuniad am gael ymdebygu i Iesu mae'r emyn. Yn ôl Cydymdaith Caneuon Ffydd, roedd pum pennill iddo'n wreiddiol ond tri sy'n cael eu canu erbyn hyn. Mae ambell ymadrodd yn y fersiwn wreiddiol wedi'i newid hefyd. Dyfynnwyd y pennill cyntaf ar y tudalen blaen ond dyma'r emyn cyfan fel y mae yn Caneuon Ffydd:

| | |
|---|---|
| O na bawn yn fwy tebyg<br>i Iesu Grist yn byw,<br>yn llwyr gysegru 'mywyd<br>i wasanaethu Duw:<br>nid er ei fwyn ei hunan<br>y daeth i lawr o'r ne';<br>ei roi ei hun yn aberth<br>dros eraill wnaeth efe. | O na bawn fel yr Iesu<br>yn llawn awyddfryd pur<br>i helpu plant gofidiau<br>ac esmwytháu eu cur;<br>O na bawn fel yr Iesu<br>yn maddau pob rhyw fai,<br>'roedd cariad yn ymarllwys<br>o'i galon e'n ddi-drai. |
| O na bawn yn fwy tebyg<br>mewn gweddi i'r Iesu mad;<br>enciliai ef i'r mynydd<br>i alw ar ei Dad;<br>yng nghanol dwfn ddistawrwydd,<br>ymhell o sŵn y dref,<br>fe hoffai ddal cymundeb<br>â'i Dad oedd yn y nef. | O na bawn i fel efe,<br>O na bawn i fel efe,<br>O na bawn i fel efe,<br>O na bawn i fel efe. |

# DYLETSWYDDAU

## ROTA YMWELWYR
## ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY

| *IONAWR / CHWEFROR* | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Huw a Rhyswen Michael<br>Elinor Wyn a Syfi Rolant |

## HEOL AWST
## DYLETSWYDDAU'R SUL

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | | Chwefror | 2 | |
| | 12 | Phil Hopley<br>Helen Jones | | 9 | Rhian Jones<br>Nigel George |
| | 19 | | | 16 | |
| | 26 | Phil Hopley<br>Helen Jones | | 23 | |

## CAPEL ELIM
## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Nia Evans | Chwefror | 2 | Bethan Morgan |
| | 26 | Nia Evans | | 16 | Bethan Morgan |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Bore | Carwen Davies |
| Chwefror | 2 | Bore | Mattie Jones |

## PRIORDY
## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Ionawr | | Chwefror | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Alun<br>Charles | Adrian<br>Evans | Gwynfor<br>Davies | Philip<br>Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Alison Parsons | Chwefror | 2 | Eirlys Davies |
| | 12 | | | 9 | |
| | 19 | Ann Bowyer | | 16 | Glenys Thomas |
| | 26 | | | 23 | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons |
| Chwefror | 2 | Bore | Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Teuluoedd Cana ac eraill | Chwefror | 2 | Carys Morgans |
| | 12 | Oedfa Deulu | | 9 | Myfanwy Jones |
| | 19 | Elis Jones | | 16 | Huw Michael |
| | 26 | Catrin Heledd Jones | | 23 | Gŵyl Dewi |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr | Meleri Llwyd O'Leary | Chwefror | Alison Parsons |

## CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH

| | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Prynhawn Gwener 21 Chwefror | 1.30 | Capel Elim |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher 19 Chwefror | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun 17 Chwefror | 7.30 | Festri'r Priory |

**CWRDD BLYNYDDOL**
**Y PUM EGLWYS**

**NOS LUN, 17 MAWRTH 2025 – 7.00 – FESTRI HEOL AWST**

# ROTA DARLLENWYR BORE SUL Y PRIORDY 2025

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 5 | Ysgol Sul Cana | Gorffennaf | 6 | Angharad Wyn |
| | 12 | Y Plant | | 13 | Sul y Cyfundeb |
| | 19 | Elis Jones | | 20 | I'w gadarnhau |
| | 26 | Catrin H Jones (HA) | | 27 | Eirlys Davies |
| | | | | | |
| Chwefror | 2 | Carys Morgans | Awst | 3 | |
| | 9 | Myfanwy Jones | | 10 | |
| | 16 | Huw Michael | | 17 | |
| *Gŵyl Dewi* | 23 | Y Plant | *Priordy* | 24 | I'w Drefnu |
| | | | | 31 | |
| | | | | | |
| Mawrth | 2 | Syfi Rolant | Medi | 7 | Catrin Ann Thomas |
| | 9 | Gill Owens | | 14 | Y Plant |
| | 16 | Philip Jones | | 21 | Heledd Tomos |
| | 23 | Heledd Mai Jones | | 28 | Alwen Owen |
| *Sul y Fam* | 30 | Y Mamau | | | |
| | | | | | |
| Ebrill | 6 | Nia Lewis | Hydref | 5 | Y Plant |
| *Sul y Blodau* | 13 | Y Plant | | 12 | Emlyn Schiavone (HA) |
| *Sul y Pasg* | 20 | Jayne Woods | | 19 | Meleri Llwyd O'Leary |
| | 27 | Miriam Wyrwoll | | 26 | Gareth Gravell |
| | | | | | |
| Mai | 4 | Ffion Parsons | Tachwedd | 2 | Y Plant |
| | 11 | Y Plant | | 9 | June Thomas (HA) |
| | 18 | Tim Hayes | | 16 | Sulwyn Thomas |
| | 25 | Peter H Griffiths | | 23 | Dennis Jones |
| | | | | 30 | Catrin Mair Jones |
| | | | | | |
| Mehefin | 1 | Delyth G Davies | Rhagfyr | 7 | Meinir Jones |
| | 8 | Alison Parsons | *Nadolig* | 14 | Y Plant |
| *Sul y Tadau* | 15 | Y Tadau | | 21 | Alun Charles (HA) |
| | 22 | Pererindod | | 28 | Huw Jones |
| | 29 | Luned V Thomas (HA) | | | |

**(HA) – Heol Awst (Undebol)**

***A wnewch chi fwrw golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'r Gweinidog. Llawer o ddiolch***

## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**Bore Mercher 22 Ionawr 2025 am 10.30**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**Theatr Genedlaethol Cymru**

***yn cyflwyno***

**BYTH BYTHOEDD AMEN**

***gan***

**Mared Jarman**

**3 Chwefror 2025 – 7.30**
**Theatr y Ffwrnes**

**Tocynnau: £14.50 & £10.50**
**☎ 0345 2263510**

**Drama newydd am gariad, colled a bywyd fel pobl ifanc anabl mewn byd sy'n blaenoriaethu'r brif ffrwd**




### CYMDEITHAS CHWIORYDD ELIM

| Dyddiad | Diwrnod | Amser | Lle | Digwyddiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 21.01.2025 | Mawrth | 2 | Festri Elim | Peter Hughes Griffiths |

### CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH

**Diolch i Angharad a Ieuan Wyn am baratoi'r Calendr ac i bawb a gyfrannodd ym mhob rhyw fodd. Ardderchog yn wir!**



### BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

cymorth cristnogol

**Diolch i Aelodau'r Ofalaeth am eu rhoddion o deisennau ar gyfer y Bore Coffi uchod ac i'r cydgysyltwyr yn y gwahanol gapeli am weinyddu'r cyfan.**

# RHWYDWAITH

**_EIN_ cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Elis Jones (P) a Desmond Evans (HA). Cofion cynnes atoch i gyd.**

**Gwelwyd llun a hanes Peter Hughes Griffiths a’r Aelod Seneddol Ann Davies ar golwg 360 yn agor swyddfa newydd Plaid Cymru yn Heol Awst yn ein tref.**

**Bu Lowri Edwards (P) yn cymryd rhan yng Ngwesty Gwobrau Ifan Jones Evans ar Radio Cymru. Yn gwmni iddi roedd Noa, 3 oed, crwt bach ei chwaer Lowri a Meirion.**



**Clywyd sgwrs am yr eildro rhwng Aled Hughes a Beti-Wyn ar Radio Cymru ynghylch Cadeirlan Notre Dame ym Mharis - eglwys sydd yn y newyddion y dyddiau hyn. Bu’n Gweinidog hefyd ar Dros Ginio ar Radio Cymru yn trafod y nifer sy’n addoli dros y Nadolig. Cafodd Huw Michael (P) ei holi ar Dros Frecwast a Newyddion S4C ynglŷn â bwriad OFGEM (rheoleiddiwr y farchnad nwy a thrydan) i orfodi cwmnïau (sy'n cyflenwi nwy a thrydan i'n cartrefi) i gynnig tariff ychwanegol sydd heb dâl sefydlog. Hyn ar gyfer y gaeaf nesaf. Bydd cwsmeriaid yn gallu dewis y tariff newydd hyn yn lle'r tariff arferol.**

**Bu Sulwyn Thomas yn hel atgofion ar Dros Frecwast ar Radio Cymru wrth ddathlu can mlynedd ers y darllediad cyntaf gan y BBC o Abertawe ar 12 Rhagfyr 2024. Fel mae’n digwydd clywyd y Gymraeg dros Wledydd Prydain am y tro cyntaf pan agorwyd yr Orsaf hon. Bu Sulwyn, wrth gwrs, yn cyflwyno’i Stondin o’r fan hon am flynyddoedd lawer.**

**Roedd Llinos Roberts (P) yn un a fu’n trin a thrafod Papurau’r Sul ar Bore Sul ar Radio Cymru gydag Iwan Griffiths. Bu hefyd yn trafod endometriosis, sef cyflwr gynaecoleg sy'n gysylltiedig â'r mislif, ar y Post Prynhawn ar Radio Cymru. Roedd Elinor W Reynolds (P) yn un o dri a fu’n trafod ‘Geiriau’r Flwyddyn’ ar Heno Nos Galan ar S4C.**

**Ar Raglen Trystan ac Emma ar Radio Cymru clywyd Plant Ysgol Sul y Priordy yn canu 'Ar noson dy eni Di' a fu'n rhan o'u cyflwyniad yng ngwasanaeth Nadolig y capel ar y thema Y Stori Fawr. Roedd y rhaglen yn cynnwys pigion gwasanaethau a chyflwyniadau a glywyd mewn capeli ac ysgolion adeg y Nadolig**

**Llongyfarchiadau mawr i:**

- **Erin Roderick sydd wedi'i dewis ar gyfer Côr Ieuenctid Cymru. Edrychwn ymlaen at glywed y perfformiadau maes o law.**



- **Martin a Lowri Waterworth ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganed mab,Tobias Rhys i Rhys a Kirsty. Pob dymuniad da i'r teulu bach.**



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Chwefror i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Maria Stedman (P), Llanpumsaint, ar golli'i mab, Aaron Jones, a hynny mor frawychus o annisgwyl. Cofiwn yn annwyl iawn am ei briod Lisa a'r plant, Betsan ac Elgan,**
**a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth lem. Bydd llawer ohonom yn cofio mam-gu a thad-cu Aaron, sef y diweddar Nano a Gwylfa Evans.**

**Ifor Evans ac Ann Griffiths (P) ar golli cyfnither, Valerie Williams, Rhydaman.**

**Janet Evans (HA) ar golli'i modryb, Margaret Hughes, Braunston.**

**Meinir Lloyd (P) ar golli gŵr ei nith, Eilian Williams, Cyffylliog.**

**Heather Williams (P) ar golli'i brawd, Vivian Davies Williams, Hebron, Hendy-gwyn.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth.**

# SULIADUR YR OFALAETH



## IONAWR / CHWEFROR 2025

| DYDDIAD | 10 y bore | 11.30 | 3.00 | 5.00 (oni nodir yn wahanol) |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr 5** | Priordy © (+ Cana a Bancyfelin) | Elim © (+HA) | | |
| **Ionawr 12** | Priordy -*OD* | | Heol Awst © (+E) | |
| **Ionawr 19** | Priordy Gethin Rhys | Elim (+HA) Tudur Dylan | | |
| **Ionawr 26** | Heol Awst (i E, HA a P) | | | |
| | | | | |
| **Chwefror 2** | Priordy © | Elim © (+HA) | | |
| **Chwefror 9** | Priordy | | Heol Awst © (+E) | |
| **Chwefror 16** | Priordy Alun Lenny | Elim (+HA) Illtyd Protheroe | | |
| **Chwefror 23** | Tabernacl Oedfa Gŵyl Dewi y dref | | | Y Babell © Oedfa Gymun Gŵyl Dewi y dref |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## IONAWR 2025



**Elim**

Ionawr 12 – Ysgol Sul
Ionawr 19 – Ysgol Sul
Ionawr 26 – Ysgol Sul

**Y Priordy**

Ionawr 12 – Oedfa Deulu
Ionawr 19 – Ysgol Sul a PIP
Ionawr 26 – Ysgol Sul



## CASGLU PWDINAU NADOLIG O WAITH MENNA LLOYD WILLIAMS

**Aeth yr holl elw at Apêl Ffynhonnau Byw**
**Undeb yr Annibynwyr**




**Dymunwn yn dda i Menna sydd heb fwynhau’r iechyd gorau’n ddiweddar**




**CYMDEITHAS CAPELI GOFALAETH CAERFYRDDIN**
**FESTRI CAPEL HEOL AWST, CAERFYRDDIN**

**DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2025 - 2 PM**



**DARLITH – COFIO Y PARCHEDIG W RHYS NICHOLAS (1914-1996)**
***gyda***
**RICHARD EYNON HUWS**
**(Pont-goch, Aberystwyth a nai Mrs Betty a W Rhys Nicholas)**

**a**
**Cantorion Brynawel**
**(sef Helen Gibbon a'i ffrindiau yn dod i canu detholiad o emynau W Rhys Nicholas)**

**Croeso cynnes i bawb**